Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Llangennech

**Llangennech
Llanelli
SA14 8YB**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Llangennech

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | YSGOL GYMRAEG LLANGENNECH |
| Awdurdod lleol | Sir Gaerfyrddin |
| Iaith y darparwr | Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 420 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 300 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 75 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd<br><br>*(Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%)* | 10.2% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysg arbennig (a)<br><br>(*Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysg arbennig yn y sector cynradd yw 20.6%*) | 32% |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 29.7% |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | 2017 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad hwn | 28-03-2022 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw'r data yma o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Flynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn yr arsylwyd yn ystod yr arolwg.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

[Fy Ysgol Leol (gov.wales)](https://mylocalschool.gov.wales)

(a) Mae'r term 'angenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae ysgol Gymraeg Llangennech yn gymuned ddysgu hapus, ofalgar lle mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da. Maent yn datblygu medrau llafar cadarn, gan siarad yn naturiol gyda'u cymheiriaid a'r staff. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen yn hyderus, yn unol â'u hoedran a'u cam datblygiad ac yn ysgrifennu mewn gwahanol gyd-destunau'n llwyddiannus. Mae eu medrau rhifedd a digidol yn gadarn, ac maent yn eu cymhwyso'n fedrus yn ystod gweithgareddau. Mae'r disgyblion yn mwynhau ymchwilio wrth ddarganfod gwybodaeth o fewn eu cynefin yn lleol, er enghraifft wrth ddysgu am daith y trên ar hyd rheilffordd calon Cymru, sy'n teithio trwy Llangennech.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cefnogaeth hynod effeithiol i'r holl disgyblion. Ceir amrediad eang o gyfleoedd i'r disgyblion gyfrannu at fywyd yr ysgol trwy wahanol grwpiau llais y disgybl. Mae hyn wedi dylanwadu ar waith yr ysgol yn y gymuned, yn lleol ac yn ehangach wrth edrych ar ddigwyddiadau byd eang. Mae'r disgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol iawn at eu dysgu, ac yn dyfalbaru'n arbennig o dda yn ystod eu gweithgareddau. Maent yn hynod foesgar gyda'i gilydd, a gydag oedolion.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chyfoethog sy'n cael ei addasu'n barhaus wrth baratoi a chynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae perthnas weithio gref rhwng y disgyblion a'r staff, ac mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn hwyluso'r dysgu yn fedrus. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion, ond ar adegau nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, er enghraifft wrth ddewis lefel yr her yn eu gweithgareddau.

Mae'r pennaeth ac arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer darparu addysg gyflawn wedi ei seilio ar gynnal lles y disgyblion, a'u herio i anelu am y safonau uchaf posibl. Mae'r staff yn gwerthuso cynnydd ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol yn llwyddiannus, ac yn nodi meysydd i'w gwella yn ddoeth.

## Argymhellion

A1 Datblygu cyfleoedd i alluogi disgyblion i wneud penderfyniadau mewn perthynas â'u dysgu

A2 Sicrhau bod profiadau dysgu yn cynnig y lefel briodol o her i alluogi pob disgybl i wneud y cynnydd gorau a datblygu eu dysgu'n llawn

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau sy’n cyfateb i’r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran, oni bai am yn y Gymraeg, sydd islaw’r hyn a ddisgwylir.

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn trwy gydol eu amser yn yr ysgol, gyda lleiafrif yn gwneud cynnydd cryf iawn. Mae disgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn datblygu hyder cynyddol, yn magu annibyniaeth ac yn dyfalbarhau’n llwyddiannus gyda’u gweithgareddau dysgu.

O’r cychwyn cyntaf, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn siarad yn hapus gyda’u ffrindiau. Maent yn datblygu medrau corfforol cadarn wrth gyd-chwarae yn ardaloedd gwahanol y ddarpariaeth. Maent yn datblygu cydbwysedd a chydsymud effeithiol wrth ddysgu symudiadau ar gyfer dawns werin. Mae’r rhan fwyaf yn dyfalbarhau’n dda iawn wrth ddatrys y broblem o sut i greu trên bach, gan sicrhau bod digon o le ar gyfer yr holl deithwyr. Maent yn datblygu medrau modur mân yn effeithiol wrth adeiladu anifeiliaid allan o glai a’u haddurno. Mae llawer o ddisgyblion yn adnabod rhifau at 10 ac yn cymhwyso'u medrau wrth gyfri'r anifeiliaid yng ngherbydau'r trên, a chyfri'r stampiau yn y swyddfa bost. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth dda o briodweddau gwahanol siapiau syml. Mae gan lawer fedrau darllen cynnar cadarn. Maent yn adnabod llythrennau, cymalau a geiriau, ac yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn gymwys trwy chwarae gydag offer creu marciau. Mae mwyafrif o ddisgyblion hynaf y dosbarth derbyn yn ysgrifennu eu henwau'n annibynnol a hyderus ac yn mwynhau ymchwilio wrth greu brawddegau syml.

Mae medrau llafar Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn ar draws yr ysgol. Mae disgyblion yn gwrando’n astud ar ei gilydd wrth drafod. Maent yn mynegi eu hunain yn hyderus, gan ddefnyddio tafodiaith a geirfa’r ardal yn naturiol gyda’u ffrindiau yn ystod gwersi ac amseroedd egwyl a chinio. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 wrth eu boddau’n trafod cymeriadau’r storiau fel 'Yr iâr fach goch’ yn fyrlymus.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 4 yn adrodd stori fel Merch Llyn y Fan Fach yn hyderus ar y cyd â’u cymheiriad. Maent yn mwynhau cymeriadu gan ddefnyddio arwyddion i'w hatgoffa o wahanol rannau'r stori wrth ddisgrifio’r ferch yn fanwl. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn trafod trychineb Aberfan yn hynod aeddfed, ac yn defnyddio eu syniadau i greu cerddi teimladwy ac effeithiol iawn. Mae Cymraeg llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y ffrwd Saesneg yn datblygu’n gadarn, ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o Gymreictod a diwylliant yr ardal.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion pen uchaf y cyfnod sylfaen yn darllen gyda hyder cynyddol gan addasu goslef llais yn effeithiol a dygymod â geiriau newydd yn ddeallus. Maent yn trafod eu hoffter o lyfrau ffuglen a ffeithiol yn aeddfed. Gallant ddarganfod gwybodaeth a'i defnyddio er mwyn cyfoethogi eu gwaith mewn cyd-destunau eraill.

Mae mwyafrif o'r disgyblion hŷn yn darllen testunau cynyddol estynedig yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae llawer o ddisgyblion pen ucha'r ysgol yn darllen y tu hwnt i'r testun gan arddangos uwch fedrau fel cip ddarllen a chyfeirio at elfennau o'r testun i gefnogi eu barn am y cymeriadau.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu yn llwyddiannus. Dangosant ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd elfennau atalnodi a chywirdeb wrth sillafu. Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn creu portreadau teimladwy o'u ffrind gan ddefnyddio cymariaethau i gyfoethogi'r gwaith. Mae llawer o'r ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu'n effeithiol mewn amrediad o gyd-destunau ffeithiol a chreadigol. Er enghraifft, maent yn creu adroddiad manwl yn dilyn eu taith i'r Ardd Fotaneg Genedlaethol yn disgrifio sut byddai'r fferyllydd ers talwm yn creu meddyginiaeth o berlysiau i drin gwahanol anhwylderau.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Maent yn cymhwyso'u medrau mewn gwahanol gyd-destunau ymarferol sy'n arddangos eu dealltwriaeth yn llwyddiannus. Er enghraifft, gall llawer o ddisgyblion Blwyddyn 2 ddethol gwahanol bwysau er mwyn cydbwyso'r glorian gyda'r tegan, ac egluro sut i greu'r cyfanswm o 35 gram gan ddefnyddio darnau 20, 10 a 5 gram. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 4 yn defnyddio rhaglen gyfrifiaduron yn hyderus i greu bas data ar wahanol fathau o drenau fel rhan o'u gwaith thema. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn cynnal arolwg manwl o'r gwahanol adar sydd i'w gweld ar dir yr ysgol, ac yn defnyddio'r wybodaeth i greu a dehongli graffiau.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymchwilio'n fedrus wrth ddatrys problemau. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 3 yn cydweithio'n dda wrth ymchwilio i ba wrthrychau sy'n suddo ac arnofio ac effaith grym brigwth ar y gwrthrychau. Mae llawer o ddisgyblion yn arddangos creadigrwydd effeithiol, er enghraifft wrth efelychu gwaith gwahanol artistiaid.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau digidol yn fedrus. Maent yn mewngofnodi'n hyderus i'w cyfrifon er mwyn cael mynediad at eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn creu cyflwyniadau sy'n cynnwys elfennau animeiddio ac ychwanegu troslais sy'n cyd-redeg â'r stori. Maent yn defnyddio offer cyfrifiadurol er mwyn cofnodi a gwerthuso eu gwaith. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn gwneud dewisiadau aeddfed ynglŷn â'r offer a'r meddalwedd mwyaf effeithiol i'w ddefnyddio ar gyfer gwahanol ddibenion. Maent yn defnyddio offer sgrin werdd a chodau QR er mwyn cyflwyno eu gwaith yn y modd mwyaf effeithiol.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron bob un disgybl yn dod i'r ysgol yn hapus ac yn siarad yn frwd am eu dysgu. Mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol, maent yn hynod gwrtais a pharchus at ei gilydd, at staff ac ymwelwyr. Maent yn dal drysau ar agor i ymwelwyr, ac yn eu cyfarch yn gyfeillgar wrth gerdded o amgylch yr ysgol. Mae hyn yn nodwedd arbennig iawn am yr ysgol. Mae disgyblion yn symud o gwmpas yr ysgol yn bwyllog, yn drefnus ac yn siarad yn hyderus ag oedolion mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae bron bob un disgybl yn ymddwyn yn ardderchog mewn gwersi ac ar y meysydd chwarae. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod gyda phwy i siarad os bydd angen cymorth arnynt. Mae gan bron bob disgybl ymwybyddiaeth gadarn o sut i gadw ei hunain, ac eraill, yn ddiogel ar-lein.

Mae bron bob un disgybl yn ymdawelu'n gyflym mewn gwersi ac mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio'n arbennig o dda am gyfnodau estynedig. Maent yn dangos dyfalbarhad a gwydnwch wrth gwblhau tasgau. Maent yn deall pwysigrwydd cynnal agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith a sut bydd hyn yn eu helpu i oresgyn heriau yn eu dysgu. Maent yn cydweithio â'u cyfoedion mewn pârau neu grŵpiau i ddatrys problemau heb gefnogaeth oedolion, er enghraifft wrth ddefnyddio strategaeth 'tri cyn fi.' O ganlyniad, mae bron bob un yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gref o'r angen i gadw'n heini a bwyta'n iach. Maent yn esbonio pam mae'n fuddiol bwyta ffrwythau yn ystod amseroedd chwarae, er enghraifft, a pham nad yw yfed diodydd llawn siwgr yn synhwyrol. Ar draws yr ysgol, mae bron bob un disgybl yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd ac yn mwynhau cymryd rhan mewn sesiynau ffitrwydd dyddiol. Mae'r disgyblion yn dangos brwdfrydedd mewn gwersi addysg gorfforol ac mae llawer yn mwynhau'r gweithgareddau allgyrsiol y mae'r ysgol yn eu darparu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae llawer ohonynt yn siarad yn hyderus am 'hawl y mis' a beth mae'n ei olygu iddynt. Mae bron bob un yn dangos parch tuag at yr amgylchedd ac yn deall sut mae eu penderfyniadau a'u dewisiadau yn effeithio arno. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos empathi tuag at eraill ac maent yn awyddus i roi cymorth i'r rhai sydd mewn angen, er enghraifft trwy drefnu gweithgaredd i godi arian i helpu pobl yr Wcráin.

Mae amryw o grwpiau llais y disgybl yn weithgar ar draws yr ysgol. Maent yn dangos dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac yn chwarae rhan bwysig wrth wneud penderfyniadau sy'n cael effaith sylweddol ar fywyd beunyddiol yr ysgol. Bu'r cyngor ysgol yn hel arian i wella adnoddau'r ardal tu allan yn y cyfnod sylfaen er mwyn cyfoethogi'r profiadau dysgu a chwarae. Mae gwaith y cyngor masnach deg yn sicrhau bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gref o berthnasoedd masnach gynaliadwy. Er enghraifft, creodd aelodau'r grŵp hwn bosteri i godi ymwybyddiaeth ac annog mwy o deuluoedd i ystyried eu dewisiadau wrth siopa bwyd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Ar draws yr ysgol, mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo gweledigaeth yr ysgol yn dda iawn. Mae'r athrawon yn darparu cwricwlwm symbylus a dychmygus sy'n datblygu medrau disgyblion yn effeithiol. Maent wedi cychwyn diwygio'r cynlluniau gwaith wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru gan gynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu ystod eang o fedrau o fewn cyd-destunau dilys. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gymhelliant, ymrwymiad a chyflawniad y rhan fwyaf o ddisgyblion. Cyfoethogir y cwricwlwm yn effeithiol drwy gynnal ymweliadau addysgol i fannau diddorol, a thrwy ddefnyddio arbenigedd ymwelwyr. Mae cyfleoedd priodol i'r disgyblion gyfrannu at eu dysgu eu hunain, fel trafod eu syniadau yn agored cyn cychwyn ar themâu newydd. O ganlyniad, maent yn dangos brwdfrydedd a diddordeb ym mhob agwedd o'u gwaith.

Mae athrawon yn cyd-gynllunio'n effeithiol i sicrhau cysondeb a dilyniant ar draws y blynyddoedd ac mae hyn yn elfen gadarn o'r ddarpariaeth. Maent yn cynllunio

profiadau dysgu sy’n darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu a chymwyso elfennau o lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn fedrus ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, fel rhan o waith ‘Fuoch chi erioed ar hyd Cledrau Calon Cymru?’ ac yn dilyn ymweld â’r Ardd Fotaneg, mae disgyblion hŷn wedi defnyddio rhaglen gynllunio electronig i adeiladu neuadd Apothecari. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth am nodweddion perlysiau sy’n gwella cyflyrau penodol i greu eu meddyginiaethau eu hunain. Y nosbarthiadau iau yr ysgol,  mae cyfuniad addas o ddysgu uniongyrchol a chyfleoedd da i’r disgyblion ymarfer a chymhwyso medrau yn annibynnol o fewn yr ardaloedd dysgu. Mae gan ddisgyblion fynediad cyson i’r ardaloedd allanol ac maent yn elwa’n fawr o weithgareddau diddorol y tu mewn a thu allan i’r dosbarth. Enghraifft nodedig yw’r disgyblion yn cyfri gwahanol anifeiliaid o amgylch y buarth gan gofnodi eu canfyddiadau ar siart rhicbren, a’u defnyddio i greu graff bar. Er bod yr athrawon ar draws yr ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion weithio’n annibynnol ar dasgau penodol, nid oes digon o gyfleoedd iddynt wneud penderfyniadau mewn perthynas â’u dysgu.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon a chymorthyddion yn modelu’r Gymraeg yn effeithiol ac yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith y disgyblion sy'n cyfrannu'n fuddiol at ddatblygiad eu medrau llafar. Mae ethos Cymreig cryf yr ysgol, ynghyd â'r ddarpariaeth, yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd pwrpasol o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. O ganlyniad, maent yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion sy’n cael eu haddysgu yn y ffrwd Saesneg yn cynnig cyfleoedd cyfoethog iddynt ddatblygu ei hymwybyddiaeth o ddiwylliant a Chymreictod eu hardal.

Mae gan yr holl staff berthynas waith hynod effeithiol gyda’r disgyblion, sy’n meithrin awyrgylch gadarnhaol a chefnogol ar gyfer dysgu. Maent yn defnyddio technegau holi amrywiol yn effeithiol er mwyn ymestyn dealltwriaeth y disgyblion. Mae bron pob athro yn sicrhau rhediad effeithiol i’w gwersi ac yn annog y disgyblion i gydweithio â’i gilydd i gwblhau tasgau a datrys problemau. Maent yn gosod amcanion dysgu clir ac yn defnyddio ystod o adnoddau diddorol i ennyn diddordeb disgyblion a chefnogi’r dysgu. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ddefnyddio’u gwybodaeth flaenorol a’u medrau meddwl yn effeithiol wrth gwblhau tasgau. Ar draws yr ysgol, mae’r athrawon yn cynllunio profiadau dysgu sydd wedi eu cynllunio’n ofalus i ddiwallu anghenion y disgyblion yn briodol. Er hyn, nid ydynt bob amser yn teilwra’r profiadau i sicrhau’r lefel addas o her i alluogi pob disgybl i wneud y cynnydd gorau a datblygu eu dysgu’n llawn.

Mae athrawon a cymorthyddion dysgu yn cynnig adborth adeiladol i’r disgyblion er mwyn iddynt ddeall sut i wella eu gwaith, yn enwedig ar lafar. Maent yn defnyddio gwybodaeth o asesiadau i gynllunio camau nesaf dysgu’r disgyblion yn briodol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy’n gwerthfawrogi pob dysgwr ac oedolyn. Mae pwyslais cryf ar bwysigrwydd parch a gofal, a chaiff hyn ddylanwad cadarnhaol iawn ar agweddau disgyblion. Mae’r holl staff yn cyfrannu’n bwrpasol at ddatblygu ethos gofalgar yn yr ysgol. Er enghraifft, maent yn cynnal trafodaethau dyddiol gyda’r disgyblion i wirio’u lles a’u parodrwydd i ddysgu. Mae parch amlwg yn bodoli rhwng disgyblion a staff ac mae hyn yn cyfrannu at greu perthynas waith hynod effeithiol.

Mae gweithdrefnau llwyddiannus ar waith i olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Mae staff yn adnabod y disgyblion a allai elwa o gymorth ychwanegol, yn gynnar. Maent yn darparu amrywiaeth bwrpasol o ymyraethau sy'n cynorthwyo'r disgyblion hyn i wneud cynnydd gwerthfawr wrth ddatblygu'u medrau llythrennedd, rhifedd, a gwella'u lles. Er enghraifft, mae'r cymorth unigol i ddisgyblion ag anghenion emosiynol yn helpu i ddatblygu'u hunanbarch yn llwyddiannus. Mae'r cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol yn defnyddio cyfarfodydd gyda'r athrawon a'r cymorthyddion i werthuso effaith y cymorth hwn yn ofalus. Gyda'i gilydd, maent yn gosod camau defnyddiol ar gyfer gwella sy'n galluogi disgyblion i barhau i wneud cynnydd cadarn. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol iawn gydag asiantaethau arbenigol, er enghraifft i gefnogi disgyblion y 'Fesen Fach' sydd ag anghenion dysgu ychwanegol dwys a chymhleth.

Mae'r ysgol yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddisgyblion fod yn weithgar yn ystod y diwrnod ysgol, er enghraifft wrth i'r llysgenhadon chwaraeon hybu gemau buarth yn ystod amser egwyl. Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol sy'n yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd ymarfer corff i'w hiechyd.

Mae staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion chwarae rhan weithgar mewn gwneud penderfyniadau ynglŷn â datblygu gwahanol agweddau o ddarpariaeth yr ysgol. Mae pob dosbarth yn defnyddio bocs syniadau er mwyn lleisio'u barn i'r cyngor ysgol.  Enghraifft o effaith hyn yw'r disgyblion yn penderfynu pobi cacennau a'u gwerthu er mwyn casglu arian tuag at Ysbyty Arch Noa.

Mae'r ysgol yn creu cysylltiadau â'r gymuned yn llwyddiannus ac mae athrawon yn cyfoethogi dysgu'r disgyblion yn fuddiol. Er enghraifft, aeth y disgyblion i gasglu ysbwriel ar draeth Pen-bre fel rhan o'r themâu 'newid'. Mae'r ysgol wedi cynnal nosweithiau 'cawl a chân' i'r gymuned er mwyn cefnogi disgyblion i ddatblygu'u defnydd o Gymraeg llafar a'u medrau cymdeithasol a chreadigol.

Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddatblygu dealltwriaeth foesol ac ysbrydol disgyblion yn ystod gwasanaethau a gweithgareddau'r ystafell ddosbarth. Trwy gynnal wythnosau iechyd meddwl, mae'r ysgol yn sicrhau bod bron pob disgybl yn datblygu dealltwriaeth gadarn o sut i leihau straen a gor-bryder. Mae'r holl staff yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu ymwybyddiaeth gref o dda a drwg, ac maent yn hybu parch tuag at gymuned yr ysgol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn parchu rheolau'r ysgol ac yn gwneud dewisiadau doeth.

Mae amrywiaeth helaeth o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau yn yr ysgol ac yn y gymuned leol. Er enghraifft, yn flynyddol, caiff pob disgybl gyfle i berfformio yn Eisteddfod 'dwl' Ysgol Llangennech. Mae perfformiadau'n cynnwys disgyblion yn dawnsio, dweud jôcs, canu neu gymryd rhan mewn perfformiad o'u dewis.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu gyda threfniadau clir ar gyfer eu monitro. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae'r pennaeth, uwch arweinwyr a'r llywodraethwyr wedi arwain yr ysgol yn hynod effeithiol drwy nifer o newidiadau mawr dros y blynyddoedd diwethaf. Maent wedi gweithio'n agos iawn fel tîm mewn ffordd hynaws i uno dwy ysgol, trawsnewid iaith yr ysgol ac i arwain yr ysgol drwy bandemig Covid-19. Drwy hyn oll, maent wedi hyrwyddo lles disgyblion a staff yn arbennig o dda ac mae parch amlwg yn bodoli rhwng disgyblion a staff. Yn ogystal, maent wedi llwyddo i sicrhau profiadau dysgu o ansawdd uchel i'r disgyblion ac wedi cynnal a datblygu medrau disgyblion yn effeithiol.

Mae'r pennaeth ac arweinwyr yn gosod cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae hyn wedi'i seilio'n gadarn ar eu gweledigaeth i ddarparu amgylchedd hapus i ddisgyblion a staff er mwyn ysbrydoli unigolion i berfformio'n dda. Mae gan yr holl staff ddealltwriaeth effeithiol o'u rolau a'u cyfrifodebau ac maent yn eu gweithredu'n gydwybodol. Yn ddiweddar, mae'r arweinwyr wedi sefydlu strwythur newydd sy'n galluogi staff i gydweithio mewn triawdau ar drawsyr ysgol. Mae hyn wedi cryfhau dealltwriaeth staff o ddatblygiad disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol mewn meysydd penodol yn dda.

Mae gan yr ysgol drefniadau gwerthfawr ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant. Un o gryfderau'r broses hon yw'r ethos parhaus ar fyfyrio ar agweddau o waith yr ysgol, yn enwedig ansawdd yr addysgu a'r cwricwlwm. Gwneir hyn drwy drafodaethau mewn cyfarfodydd staff a thriawadau, craffu ar waith ac yn ddiweddar wrth gychwyn ailgydio yn y broses o arsylwadau a theithiau dysgu. Mae arweinwyr yn defnyddio'r holl wybodaeth yn gelfydd i adnabod cryfderau'r ysgol a'i meysydd ar gyfer gwelliant. Wrth werthuso effaith y pandemig ar fedrau disgyblion, er enghraifft, gwelwyd dirywiad mewn medrau llafar disgyblion. O ganlyniad, mae arweinwyr wedi clustnodi amser i arbenigwyr gwrdd i greu cynllun llafar penodol ar gyfer yr ysgol. Mae defnydd o'r cynllun 'Sgwrsio Sionc' wedi cael effaith gadarnhaol ar gywirdeb ieithyddol a hyder disgyblion wrth drafod yn y Gymraeg ar draws yr ysgol. Mae'r prif flaenoriaethau ar gyfer gwelliant yn cael eu cynnwys yn y cynllun gwella ysgol, sy'n cynnwys camau gweithredu a meini prawf llwyddiant priodol.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn effeithiol. Gwnânt ddefnydd bwriadus o'r grant datblygu disgyblion, er enghraifft, i sicrhau bod disgyblion penodol yn cael mynediad i ymyrraeth briodol yn eu dosbarthiadau.

Mae arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn fedrus. Ar y cyd â disgyblion, staff, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach, maent wedi llunio gweledigaeth glir ar gyfer datblygiad y Cwricwlwm i Gymru. Mae arweinwyr yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i staff ddechrau arbrofi gyda gwahanol ddulliau o gyflwyno'r cwricwlwm fel darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion atgyfnerthu eu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae gan arweinwyr ffocws clir ar greu diwylliant Cymreig o fewn yr ysgol gyda chyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg a chyfleoedd iddynt ddysgu ac ymfalchïo yn eu hetifeddiaeth.

Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd buddiol i staff ddatblygu'n broffesiynol. Er enghraifft, wrth sefydlu dosbarth 'Y Fesen Fach', mae staff wedi elwa'n fawr o hyfforddiant ar gyfer datblygu cwricwlwm penodol i ddiwallu anghenion unigol disgyblion yn y dosbarth. Fel rhan o'r broses trawsnewid, mae staff cynorthwyol wedi

elwa'n sylweddol o fynediad i gyrsiau i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar eu medrau ieithyddol a'u hyder i ddefnyddio'r iaith.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o waith yr ysgol ac yn cyflawni'u rolau statudol yn gydwybodol. Maent yn defnyddio'u harbenigeddau'n graff i gynorthwyo'r ysgol o fewn gwahanol bwyllgorau. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd ar gyfer gwelliant a defnyddiant eu gwybodaeth yn fedrus i gynnig her briodol i arweinwyr. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae perthynas gynhyrchiol rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae arweinwyr yn defnyddio 'app' yr ysgol i hysbysebu rhieni am ddigwyddiadau yn rheolaidd. Mae arweinwyr yn ystyried barn rhieni a gofalwyr yn effeithiol drwy holiaduron a gwaith y fforwm rhieni. Er enghraifft, mae'r fforwm rhieni yn rhoi cyfle gwerthfawr i rieni gael mewnbwn i bolisïau'r ysgol, a chynnig eu barn am amrywiaeth o faterion. Rhennir canfyddiadau a'r camau y mae'r ysgol yn cymryd i fynd i afael â materion sy'n deillio o'r cyfarfodydd hyn, drwy gylchlythyron.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/06/2022